Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol**

# **Cydsyniad Deddfwriaethol:** Bil Diogelwch y Ffin, Lloches a Mewnfudo

## 1. Cefndir

**1.** Cyflwynwyd Bil Diogelwch y Ffin, Lloches a Mewnfudo (“y Bil”) ar 30 Ionawr 2025 a chafodd ei Ail Ddarlleniad ar 10 Chwefror 2025. Dechreuodd y Cyfnod Pwyllgor ar 27 Chwefror 2025.

**2.** Yn ôl yr enw hir, mae’r Bil yn gwneud darpariaeth ar gyfer y canlynol:

> *“border security; immigration and asylum; sharing customs data and trailer registration data; articles for use in serious crime; serious crime prevention orders; fees paid in connection with the recognition, comparability or assessment of qualifications; and for connected purposes.”*[1]

**3.** Gosododd Jane Hutt AS, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol, y Trefnydd a’r Prif Chwip, Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar 17 Chwefror 2025 (“y Memorandwm”).[2]

### **Gwaith craffu gan y pwyllgorau cyfrifol**

**4.** Cyfeiriwyd y Memorandwm at y Pwyllgor hwn ac at y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg.

**5.** Trafododd y Pwyllgor hwn y Memorandwm yn ei gyfarfod ar 17 Mawrth a chytunodd i ysgrifennu ar y cyd â'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg at yr

[1] Tŷ'r Cyffredin, Bil Diogelwch y Ffin, Lloches a Mewnfudo (fel y’i cyflwynwyd)
[2] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol: Bil Diogelwch y Ffin, Lloches a Mewnfudo, 17 Chwefror 2025

Ysgrifennydd Cabinet yn gofyn am ragor o wybodaeth.[3] Cafwyd ymateb ar 2 Ebrill.[4]

## 2. Y darpariaethau y ceisir cydsyniad ar eu cyfer

**6.** Mae Llywodraeth y DU yn datgan bod y broses Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol yn berthnasol yng Nghymru i gymal 51 o'r Bil fel y'i cyflwynwyd (cymal 53 o'r Bil fel y'i diwygiwyd yn y Pwyllgor Biliau Cyhoeddus).[5]

**7.** Barn Llywodraeth Cymru yw bod cydsyniad yn ofynnol ar gyfer cymalau 38 a 51 o'r Bil fel y'i cyflwynwyd.[6] Mae'r adroddiad hwn yn ystyried y ddau gymal hyn a chymal ychwanegol a allai fod yn berthnasol i weithdrefnau'r Senedd ar gyfer cydsyniad deddfwriaethol.

### Cymal 38

**8.** Mae cymal 38 o'r Bil fel y'i cyflwynwyd yn diddymu darpariaethau penodol o Ddeddf Mudo Anghyfreithlon 2023.

**9.** Er bod y cymal yn diddymu'r rhan fwyaf o Ddeddf 2023, mae'r Memorandwm yn ymwneud â diddymu'n benodol adrannau 4, 20, 21, 57 a 58. Mae'r Memorandwm yn nodi eu bod yn ymwneud â deddfwriaeth ar drin plant ar eu pen eu hunain a allai fod dan ofal awdurdod lleol yng Nghymru.[7]

#### Pa ddarpariaethau fyddai'n cael eu diddymu gan gymal 38?

**10.** Roedd y darpariaethau syn cael eu diddymu gan gymal 38 yn ddarostyngedig i Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol a Memorandwm Cydsyniad Atodol blaenorol.[8] Cyflwynodd y Pwyllgor hwn adroddiad ar y Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol ar y pryd ac yn y ddau achos gwrthododd y Senedd roi cydsyniad.[9] Fodd bynnag, arhosodd y darpariaethau yn

[3] Mae copi o'r ohebiaeth ar gael ar-lein
[4] Llythyr oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol, y Trefnydd a'r Prif Chwip at Gadeiryddion y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg a'r Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, 2 Ebrill 2025
[5] Bil Diogelwch y Ffin, Lloches a Mewnfudo, Nodiadau Esboniadol
[6] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol: Bil Diogelwch y Ffin, Lloches a Mewnfudo, 17 Chwefror 2025
[7] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol: Bil Diogelwch y Ffin, Lloches a Mewnfudo, 17 Chwefror 2025, paragraff 14
[8] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol: Y Bil Mudo Anghyfreithlon
[9] Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, Cydsyniad Deddfwriaethol: Y Bil Mudo Anghyfreithlon, 19 Mehefin 2023

y Bil wrth iddo ddod yn Ddeddf 2023. Mae'r diddymiadau penodol yng nghymal 38 wedi'u crynhoi isod; nid oes yr un ohonynt mewn grym ar hyn o bryd:

- Roedd adran 4 yn rhoi pŵer i Ysgrifennydd Gwladol y DU i wneud esemptiadau rhag y ddyletswydd i symud unigolion o'r DU.
- Roedd adran 20 yn caniatáu i'r Ysgrifennydd Gwladol wneud rheoliadau i estyn cymhwysiad yr adrannau sy'n ymwneud â lletya plant sydd ar eu pen eu hunain i Gymru, heb gydsyniad y Senedd na Gweinidogion Cymru.
- Roedd adran 21 yn diwygio adran 69 o Ddeddf Mewnfudo 2016 i alluogi trosglwyddo plant ar eu pen eu hunain rhwng awdurdodau lleol. Roedd hyn yn cynnwys trosglwyddo plant mudol ar eu pen eu hunain allan o ofal awdurdodau lleol Cymru o bosibl.[10]
- Roedd adran 57 yn dileu gallu personau sy'*n* ddarostyngedig i'r ddyletswydd i'w symud o'r DU i apelio yn erbyn penderfyniad asesiad oedran o dan Ddeddf Cenedligrwydd a Ffiniau 2022. Roedd yr adran hon hefyd yn darparu na fyddai adolygiad barnwrol o benderfyniad asesiad oedran, neu benderfyniad i wneud trefniadau ar gyfer symud yn seiliedig ar y penderfyniad hwnnw, yn atal arfer dyletswydd neu bŵer i symud person o'r DU o dan Ddeddf 2023.
- Roedd adran 58 yn rhoi'r pŵer i'r Ysgrifennydd Gwladol wneud rheoliadau ynghylch effaith penderfyniad person i beidio â chydsynio i ddefnyddio dull gwyddonol penodedig at ddibenion asesu oedran.

## Barn Llywodraeth y DU

**11.** Mae Llywodraeth y DU o'r farn bod cymal 38 yn ymwneud â dibenion mewnfudo a gedwir yn ôl yn gyfan gwbl, ac felly nad oes angen cydsyniad.[11] Mae hyn yn cyd-fynd â safbwynt Llywodraeth flaenorol y DU mewn perthynas â'r cymalau hynny yn y Bil Mudo Anghyfreithlon ar y pryd.[12]

[10] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol: Bil Diogelwch y Ffin, Lloches a Mewnfudo, 17 Chwefror 2025, paragraff 16
[11] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol: Bil Diogelwch y Ffin, Lloches a Mewnfudo, 17 Chwefror 2025, paragraff 30
[12] Llywodraeth y DU, Y Bil Mudo Anghyfreithlon: Nodiadau esboniadol, 27 Ebrill 2023, tudalen 12

**12.** Mae Llywodraeth y DU yn esbonio y bydd diddymu rhai adrannau o Ddeddf 2023, gan gynnwys y rhai y mae Llywodraeth Cymru yn ceisio cydsyniad y Senedd ar eu cyfer, yn mynd i'r afael â'r canlynol:

> *"… provisions which prevent asylum decision-making, increase the backlog of asylum cases awaiting an outcome and put impossible pressure on asylum accommodation with significant costs to taxpayers."*[13]

### Barn Llywodraeth Cymru

**13.** Mae Llywodraeth Cymru yn dadlau bod cymal 38 yn gwneud darpariaeth sydd o fewn cymhwysedd datganoledig y Senedd ac felly bod cydsyniad y Senedd yn ofynnol. Mae'n nodi'r canlynol:

- bod adran 4 o Ddeddf 2023 yn rhoi pŵer i Ysgrifennydd Gwladol y DU i wneud diwygiadau, gan gynnwys diwygiadau canlyniadol, i Fesurau neu Ddeddfau'r Senedd; a
- bod adrannau 20, 21, 57 a 58 yn cael effaith ar ofal cymdeithasol a/neu swyddogaethau awdurdodau lleol, sydd yn faterion datganoledig.[14]

**14.** Mae Llywodraeth Cymru yn argymell rhoi cydsyniad ar ei gyfer. Esboniodd yr Ysgrifennydd Cabinet fod yr argymhelliad hwn wedi'i seilio ar y ffaith nad yw'n bosibl diddymu darpariaethau perthnasol Deddf Mudo Anghyfreithlon 2023 drwy unrhyw beth heblaw deddfwriaeth gan y DU.

## Cymal 51

**15.** Mae cymal 51 o'r Bil fel y'i cyflwynwyd (cymal 53 o'r Bil fel y'i diwygiwyd yn y Pwyllgor Biliau Cyhoeddus) yn darparu awdurdod statudol ôl-weithredol ar gyfer ffioedd a godir am wasanaethau sy'n ymwneud â chymharu, cydnabod ac asesu cymwysterau o'r tu allan i'r DU ac o fewn y DU. Bydd y pŵer ôl-weithredol hwn yn dileu'r posibilrwydd y bydd cwsmeriaid yn gofyn am ad-daliadau am ffioedd a dalwyd am y gwasanaethau hynny.

**16.** Eglurodd Llywodraeth Cymru pam ei bod yn briodol yn ei barn hi i fwrw ymlaen â hyn mewn Bil gan Lywodraeth y DU:

[13] Llywodraeth y DU, Bil Diogelwch y Ffin, Lloches a Mewnfudo 2025: asesiad effaith, paragraff 117
[14] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol: Bil Diogelwch y Ffin, Lloches a Mewnfudo, 17 Chwefror 2025, paragraffau 4-18 a 32

> *"Cafodd y trefniadau contractio a chodi ffioedd hanesyddol ar gyfer Gwasanaeth ENIC y DU eu rhoi yn eu lle gan Lywodraeth y DU ond maent yn effeithio ar ddefnyddwyr gwasanaethau yng Nghymru. Mae ansicrwydd ynghylch pryd y codwyd ffioedd am y tro cyntaf am y gwasanaethau hyn, ond mae'n bosibl y gallai'r ffioedd fod wedi bod ar waith ers 2014 o leiaf. Felly mae'n briodol i ddarpariaeth gael ei gwneud ym Mil Llywodraeth y DU yn hytrach na defnyddio Bil gan y Senedd i fynd i'r afael â'r mater, gan fod hyn yn delio â threfniant a sefydlwyd ac a weinyddwyd gan Lywodraeth y DU."*[15]

### Barn Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU

**17.** Mae'r ddwy lywodraeth yn cytuno bod cymal 51 o'r Bil fel y'i cyflwynwyd yn gofyn am gydsyniad y Senedd gan ei fod yn ymwneud ag addysg.

**18.** Mae Llywodraeth Cymru yn argymell rhoi cydsyniad ar ei gyfer.

## Cymal 53

**19.** Mae cymal 53 o'r Bil fel y'i cyflwynwyd (cymal 55 o'r Bil fel y'i diwygiwyd yn y Pwyllgor Biliau Cyhoeddus) yn cynnwys pŵer gwneud rheoliadau i'r Ysgrifennydd Gwladol wneud darpariaeth ganlyniadol gan gynnwys rheoliadau a all ddiwygio, diddymu neu ddirymu unrhyw ddeddfiad. Mae deddfiad ("enactment") yn cynnwys deddfiad a gynhwysir mewn Deddf neu Fesur gan Senedd Cymru, neu mewn offeryn a wneir o dan Ddeddf neu Fesur gan Senedd Cymru.

### Barn Llywodraeth y DU

**20.** Nid yw Llywodraeth y DU yn rhestru cymal 53 o'r Bil fel y'i cyflwynwyd fel darpariaeth yn y Bil y mae'r broses Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol yn berthnasol iddi.

### Barn Llywodraeth Cymru

**21.** Nid yw Memorandwm Llywodraeth Cymru yn cyfeirio at gymal 53 o'r Bil fel y'i cyflwynwyd a phan holwyd y Llywodraeth yn ein llythyr ar y cyd, ymatebodd fel a ganlyn:

---

[15] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol: Bil Diogelwch y Ffin, Lloches a Mewnfudo, 17 Chwefror 2025, paragraff 29

> *"Nid oedd cymal 53 wedi'i gynnwys yn y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol gan ei fod yn bŵer cul sydd wedi'i gyfyngu i wneud diwygiadau gofynnol i ddeddfwriaeth bresennol o ganlyniad uniongyrchol i ddarpariaethau'r Bil ddod i rym. Bydd y pŵer hwn yn cael ei ddefnyddio'n bennaf mewn perthynas â phynciau a gedwir yn ôl, gan fod mwyafrif y Bil y tu allan i gymhwysedd deddfwriaethol."*[16]

# 3. Ein barn ni

## Ynghylch y gofyniad am gydsyniad deddfwriaethol

Mae Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU yn cytuno ar yr angen am gynnig cydsyniad deddfwriaethol mewn perthynas â chymal 51 o Fil Diogelwch y Ffin, Lloches a Mewnfudo (fel y'i cyflwynwyd). Fodd bynnag, er ein bod yn cydnabod bod cymal 38 yn ymwneud â mewnfudo, sy'n fater a gedwir yn ôl, mae hefyd yn ymwneud â gofal cymdeithasol a swyddogaethau awdurdodau lleol, sy'n faterion datganoledig, ac mae hefyd yn diddymu pŵer i'r Ysgrifennydd Gwladol ddatgymhwyso neu addasu effaith deddfwriaeth y Senedd. Ar ben hynny, wrth ystyried a oes angen cydsyniad deddfwriaethol y Senedd, nid a oes gan y Senedd gymhwysedd deddfwriaethol i basio'r un ddarpariaeth yn union yw'r prawf, ond a yw Bil y DU yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru sy'n rhoi sylw i faterion datganoledig.

Rydym, felly, yn cytuno ag asesiad Llywodraeth Cymru bod angen cydsyniad y Senedd ar gyfer cymal 38 o'r Bil fel y'i cyflwynwyd yn ogystal â chymal 51 o'r Bil fel y'i cyflwynwyd.

**Casgliad 1 .** Rydym yn cytuno â Llywodraeth Cymru fod angen cydsyniad deddfwriaethol y Senedd ar gyfer cymal 38 yn ogystal â chymal 51 o Fil Diogelwch y Ffin, Lloches a Mewnfudo fel y'i cyflwynwyd (cymalau 38 a 53 o'r Bil fel y'i diwygiwyd yn y Pwyllgor Biliau Cyhoeddus).

## Ynghylch rhoi cydsyniad

Yn ein hadroddiad ar y darpariaethau y mae cymal 38 yn ceisio eu diddymu, mynegodd y mwyafrif ohonom y farn ei bod yn amhriodol i Lywodraeth y DU

[16] Llythyr oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol, y Trefnydd a'r Prif Chwip at Gadeiryddion y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg a'r Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, 2 Ebrill 2025

ddeddfu i newid polisi mewn meysydd datganoledig, yn enwedig heb gytundeb rhwng llywodraethau a heb gadw at weithdrefn cydsyniad deddfwriaethol y Senedd.[17] Nid oedd mwyafrif y Pwyllgor yn cefnogi rhoi cydsyniad ar gyfer y darpariaethau hynny (roedd un Aelod yn anghytuno) ac roedd y mwyafrif yn y Senedd gyfan yn cytuno pan wrthododd roi cydsyniad. Serch hynny, daeth y darpariaethau yn gyfraith yn Neddf Mudo Anghyfreithlon 2023.

O ystyried nad oedd mwyafrif y Pwyllgor yn cefnogi'r darpariaethau hyn yn 2023, mae'n dilyn yn rhesymegol fod y mwyafrif yn cefnogi'r cymal sy'n ceisio diddymu'r un darpariaethau. Mae mwyafrif y Pwyllgor yn cefnogi rhoi cydsyniad mewn perthynas â chymal 38. Roedd un Aelod yn anghytuno. At hynny, er ei fod yn cefnogi rhoi cydsyniad, roedd Aelod arall yn anghytuno mewn egwyddor â Llywodraeth y DU yn deddfu mewn maes sydd wedi'i ddatganoli i Gymru.

Mewn perthynas â chymal 51 o'r Bil fel y'i cyflwynwyd, nodwn y rheswm a roddwyd dros fynd ar drywydd y mater datganoledig hwn mewn Bil a noddir gan Lywodraeth y DU ac ni welwn unrhyw reswm dros wrthwynebu rhoi cydsyniad deddfwriaethol.

**Argymhelliad 1.** Rydym yn argymell bod y Senedd yn rhoi cydsyniad deddfwriaethol i Fil Diogelwch y Ffin, Lloches a Mewnfudo (fel y nodir yn y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol).

## Ynghylch Cymal 53

Rydym yn nodi y byddai cymal 53 o'r Bil fel y'i cyflwynwyd (cymal 55 o'r Bil fel y'i diwygiwyd yn y Pwyllgor Biliau Cyhoeddus) yn galluogi'r Ysgrifennydd Gwladol i wneud darpariaeth ganlyniadol. Caiff rheoliadau o'r fath ddiwygio, diddymu neu ddirymu unrhyw ddeddfiad. Mae hyn yn cynnwys deddfiad a gynhwysir mewn Deddf neu Fesur gan Senedd Cymru, neu mewn offeryn a wneir o dan Ddeddf neu Fesur gan Senedd Cymru. Er ei bod yn ymddangos ei fod yn bodloni'r prawf a fyddai'n sbarduno'r weithdrefn cydsyniad deddfwriaethol, nid yw hyn wedi'i gymhwyso i gymal 53 o'r Bil fel y'i cyflwynwyd, sy'n peri penbleth. Pan wnaethom holi ynghylch hyn, ysgrifennodd Llywodraeth Cymru yn ôl gan gynnig esboniad rhannol yn unig.[18] Mae'n hanfodol bod Llywodraeth Cymru yn nodi'n llawn pam y

[17] Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, Cydsyniad Deddfwriaethol: Y Bil Mudo Anghyfreithlon, 19 Mehefin 2023
[18] Llythyr oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol, y Trefnydd a'r Prif Chwip at Gadeiryddion y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg a'r Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, 2 Ebrill 2025

mae'n credu nad oes angen cydsyniad y Senedd ar gyfer y pŵer hwn, a'r dibenion y caniateir ei ddefnyddio ar eu cyfer.

**Argymhelliad 2.** Yn ystod dadl y Senedd ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar Fil Diogelwch y Ffin, Lloches a Mewnfudo, dylai Llywodraeth Cymru egluro i'r Senedd pam y mae'n credu nad oes angen cydsyniad y Senedd ar gyfer y pŵer sydd wedi'i gynnwys yng nghymal 53 o'r Bil fel y'i cyflwynwyd, ac at ba ddibenion y mae'n credu y caiff y pŵer ei ddefnyddio.